# Cyngor Bro Morgannwg – Cymhwyso’r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy mewn Meysydd Gwasanaeth

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3442A2023

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bro Morgannwg fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau bod meysydd gwasanaeth yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n effeithiol gan mwyaf, er bod cyfle i ddatblygu rhai elfennau ymhellach.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau bod meysydd gwasanaeth yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n effeithiol gan mwyaf, er bod cyfle i ddatblygu rhai elfennau ymhellach 6

Mae uwch swyddogion y Cyngor, gyda chymorth fframwaith corfforaethol, yn helpu i ysgogi diwylliant cadarnhaol sy'n cynorthwyo gwasanaethau i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond nid yw hyn wedi'i ymgorffori'n llawn yn ei becyn cymorth rheoli prosiectau 6

Ceir cymorth corfforaethol effeithiol i helpu meysydd gwasanaeth i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond mae cyfle i'r Cyngor gryfhau ei arlwy dysgu a datblygu 8

Mae gan y Cyngor fecanweithiau sy'n ei helpu i asesu pa un a yw meysydd gwasanaeth yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n effeithiol ac mae'n rhoi gwersi ar waith i gryfhau ei drefniadau 9

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Yn ystod 2021-22, fe wnaethom gynnal cyswllt â'r Cyngor mewn perthynas â'n pryderon ynghylch adnewyddu'r contract hamdden. Nid oedd y Cyngor wedi mynd i'r afael â'r cynnig ar gyfer gwella yn ein hadroddiad Adolygiad o Wasanaethau Hamdden a Roddwyd ar Gontract Allanol a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020 mewn perthynas â chryfhau'r modd y cymhwysir yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Fe gymerom ni sicrwydd sylweddol o gamau gweithredu dilynol y Cyngor mewn ymateb i'n pryderon. Fodd bynnag, fe ddwedom ni y byddem yn awyddus i weld yn y dyfodol bod y ddealltwriaeth am yr egwyddor datblygu cynaliadwy a ddangoswyd gan y Cyngor mewn ymateb i'n pryderon ynghylch adnewyddu'r contract hamdden yn cael ei hadlewyrchu ar draws y Cyngor.

2 Fe gynhaliom ni'r adolygiad hwn i gael sicrwydd bod gan y Cyngor drefniadau effeithiol i sicrhau bod meysydd gwasanaeth yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

3 Pan ydym yn cyfeirio at arweinyddiaeth yn yr adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio at swyddogion yn hytrach nag aelodau. Y rheswm dros hyn yw bod ffocws ein gwaith ar sut y mae swyddogion yn sicrhau bod meysydd gwasanaeth yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

4 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2022.

### Yr hyn a ganfuom

5 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: A oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer sicrhau bod meysydd gwasanaeth yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy?

6 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau bod meysydd gwasanaeth yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n effeithiol gan mwyaf, er bod cyfle i ddatblygu rhai elfennau ymhellach. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae uwch swyddogion y Cyngor, gyda chymorth fframwaith corfforaethol, yn helpu i ysgogi diwylliant cadarnhaol sy'n cynorthwyo gwasanaethau i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond nid yw hyn wedi'i ymgorffori'n llawn yn ei becyn cymorth rheoli prosiectau;
- ceir cymorth corfforaethol effeithiol i helpu meysydd gwasanaeth i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond mae cyfle i'r Cyngor gryfhau ei arlwy dysgu a datblygu; ac
- mae gan y Cyngor fecanweithiau sy'n ei helpu i asesu pa un a yw meysydd gwasanaeth yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n effeithiol ac mae'n rhoi gwersi ar waith i gryfhau ei drefniadau.

## Argymhellion

**Arddangosyn 1: argymhellion**

Mae’r tabl isod yn nodi’r argymhellion yr ydym wedi’u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Argymhellion | |
| --- | --- |
| A1 | Dylai’r Cyngor ddatblygu ei becyn cymorth rheoli prosiectau i sicrhau bod y dogfennau hynny’n helpu swyddogion i gymhwyso’r egwyddor datblygu cynaliadwy o’r dechrau un. |
| A2 | Dylai’r Cyngor ddatblygu ei arlwy dysgu a datblygu i helpu i sicrhau bod staff ar draws y sefydliad yn deall Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a’u bod yn gallu cymhwyso’r egwyddor datblygu cynaliadwy fel y bo angen yn eu rolau. |

# Adroddiad manwl

## Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau bod meysydd gwasanaeth yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n effeithiol gan mwyaf, er bod cyfle i ddatblygu rhai elfennau ymhellach

### Mae uwch swyddogion y Cyngor, gyda chymorth fframwaith corfforaethol, yn helpu i ysgogi diwylliant cadarnhaol sy'n cynorthwyo gwasanaethau i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond nid yw hyn wedi'i ymgorffori'n llawn yn ei becyn cymorth rheoli prosiectau

7 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

- canfuom fod uwch swyddogion yn y Cyngor yn darparu cyfeiriad ac arweinyddiaeth eglur i sicrhau bod disgwyliadau mewn perthynas â'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n glir ac yn cael eu deall ar draws y sefydliad. Er enghraifft, mae cylch gorchwyl y Bwrdd Mewnwelediad Strategol yn nodi'n benodol mai ei ddiben yw darparu ffocws strategol a rhoi cymorth i gyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf). Mae'r Prif Weithredwr yn ymrwymedig i sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n cael ei chymhwyso, fel a ddangoswyd gan ei ymateb adeiladol a rhagweithiol i'r pryderon a godwyd gennym ni am y contract hamdden[1].
- mae gan y Cyngor fframwaith corfforaethol sy'n hybu ystyriaeth i'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn modd cadarnhaol. Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys:
  - Cynllun Corfforaethol
  - Cynllun Cyflawni Blynyddol
  - Cynlluniau gwasanaethau
  - Cynlluniau timau
  - Hunanasesiadau cyfarwyddiaethau
  - Templedi ar gyfer adroddiadau Pwyllgorau/y Cabinet
  - Adrodd ar berfformiad a phwyllgorau craffu trawsbynciol
- mae enghreifftiau o'r modd y mae'r fframwaith corfforaethol yn hybu ystyriaeth i'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n cynnwys:

[1] I gael rhagor o wybodaeth gweler Atodiad 1 o'n hadolygiad Sicrwydd ac Asesu Risg.

- mae'r templed ar gyfer cynlluniau timau'n nodi'n glir beth yw'r disgwyliadau o ran cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy gan dimau.
- mae'r broses ar gyfer hunanasesiadau gan Gyfarwyddiaethau'n ysgogi Cyfarwyddiaethau i roi ystyriaeth fanwl i sut y maent wedi gweithredu'n unol â'r pum ffordd o weithio.

- dywedodd uwch swyddogion wrthym ni eu bod yn hyderus eu bod yn deall y disgwyliadau sydd arnynt o ran cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Daeth y ddealltwriaeth hon i'r fei yn ein gwaith maes lle arsylwom ni ar uwch swyddogion yn mynd ati'n frwd i hybu camau i roi'r fframwaith ar waith.
- mae gan y Cyngor fecanweithiau eraill hefyd sy'n helpu i lywio gwaith i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae'r rhain yn cynnwys nifer o fforymau aml-Gyfarwyddiaeth, trawsbynciol i fynd i'r afael â materion sy'n gryn her, megis:
  - y Bwrdd Prosiect Sero;
  - 'Hydlau'[2] a sefydlwyd i helpu'r Cyngor i ystyried ei gynlluniau i fynd i'r afael â Chostau Byw ac Iechyd Meddwl Plant;
  - y Bwrdd Mewnwelediad Strategol; a hefyd
  - y Grŵp Prif Swyddogion a sesiynau datblygu rheolwyr cysylltiedig.
- yn ystod ein gwaith maes, fe arsylwom ni ar gyfarfodydd y Bwrdd Ail-lunio Gwasanaethau Cymdeithasol, y Bwrdd Mewnwelediad Strategol a'r Bwrdd Prosiect Sero. Canfuom nifer o enghreifftiau o sut y mae'r fforymau hyn yn helpu i lywio gwaith y Cyngor i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Er enghraifft, fe arsylwom ni ar herio'r modd y cymhwysir yr egwyddor datblygu cynaliadwy, megis sut y mae'r cyhoedd yn mynd i gael eu cynnwys mewn perthynas â theithio llesol.
- yn bwysig, roeddem yn gallu gweld tystiolaeth o roi fframwaith corfforaethol y Cyngor ar waith fel a fwriadwyd. Er enghraifft, mae'r hunanasesiadau a gwblhawyd ar gyfer Cyfarwyddiaethau'n dangos ystyriaeth ystyrlon i'r awgrymiadau mewn perthynas â'r pum ffordd o weithio. Roedd swyddogion yn hyderus o ran rhoi enghreifftiau o sefyllfaoedd lle'r oedd meysydd gwasanaeth yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
- ar y cyfan, rydym wedi ein sicrhau bod y Cyngor yn datblygu diwylliant cadarnhaol, sy'n llywio gwaith i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn modd effeithiol.
- fodd bynnag, nid yw dogfennaeth rheoli prosiectau'r Cyngor, megis ei dempledi ar gyfer achosion busnes, yn darparu awgrymiadau i swyddogion er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth gynnar i'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Felly, ceir risg nad yw swyddogion yn ystyried y pum ffordd o

[2] Mae'r Cyngor yn defnyddio'r term 'Hydl' i ddisgrifio achlysuron pan fo swyddogion o bob rhan o'r Cyngor yn dod ynghyd i drafod materion Costau Byw ac Iechyd Meddwl Plant.

weithio o'r dechrau un mewn prosiectau a newidiadau i wasanaethau. Dylai trefniadau megis grwpiau prosiect helpu i herio'r modd y cymhwysir yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth i brosiectau ddatblygu. Fodd bynnag, mae cyfle i'r Cyngor gryfhau ei becyn cymorth rheoli prosiectau i helpu i hybu a gwreiddio ystyriaeth o adeg gnnar prosiect.

## Ceir cymorth corfforaethol effeithiol i helpu meysydd gwasanaeth i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond mae cyfle i'r Cyngor gryfhau ei arlwy dysgu a datblygu

8 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

- mae'r Cyngor yn rhoi amrywiaeth o gymorth corfforaethol i feysydd gwasanaeth i'w helpu i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys:
  - mae partneriaid perfformiad corfforaethol yn cael eu dyrannu i feysydd gwasanaeth i roi cymorth a her i wasanaethau, er enghraifft ar gynllunio gwasanaethau a hunanasesiadau. O'n cyfweliadau ni, mae'n amlwg bod gan staff feddwl mawr o gymorth partneriaid perfformiad corfforaethol a bod rheolwyr yn teimlo bod eu her yn helpu meysydd gwasanaeth i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
  - ceir cymorth canolog i wasanaethau sy'n ymwneud â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Un enghraifft yw dadansoddiad o duedd economaidd a ddarperir i wasanaethau. Mae hyn yn enghraifft dda o sganio'r gorwel yn ehangach a hwyluso'r defnydd o ddata. Dywedodd Penaethiaid Gwasanaeth wrthym fod defnydd y Cyngor o ddata'n ddefnyddiol iddynt wrth gynllunio gwasanaethau.
  - gwelsom enghreifftiau o swyddogion o'r adrannau adnoddau dynol, cyllid a pherfformiad yn mynychu ac yn cefnogi cyfarfodydd cyfarwyddiaethau, a chyfarfodydd strategol eraill megis Bwrdd y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Bwrdd Prosiect Sero. Mae gan feysydd gwasanaeth feddwl mawr o'r math yma o gymorth. Mae rhoi cymorth ar draws y Cyngor fel hyn yn arwydd da o sut y mae'r Cyngor yn gweithio mewn ffordd integredig ac yn creu'r cysylltiadau rhwng timau a swyddogaethau.
- darparodd y Cyngor hyfforddiant i staff ar y Ddeddf, pan gyflwynwyd y Ddeddf gyntaf, ond nid yw wedi darparu unrhyw hyfforddiant ers hynny. Yn ein tyb ni, byddai'n amserol i'r Cyngor adolygu ei arlwy dysgu a datblygu i staff. Byddai manteision lluosog pe bai'n gwneud hyn, gan gynnwys:
  - gallai helpu i ddiweddaru a datblygu gwybodaeth ymhlith staff, gan arwain at ddealltwriaeth well am y Ddeddf;
  - mae'n lleihau'r risg y gallai gwybodaeth gael ei cholli oherwydd trosiant staff;

- gallai sicrhau bod newydd-ddyfodiaid yn deall disgwyliadau'r Cyngor ynglŷn ag ateb gofynion y Ddeddf;
- gallai helpu aelodau o staff mewn swyddi uwch i gryfhau lefel yr her y maent yn ei darparu ynglŷn â chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy; a
- byddai'n helpu'r Cyngor i gynnal y momentwm y mae'n ei ddangos ar hyn o bryd i sicrhau bod cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n rhan annatod o bob rhan o'r sefydliad.

## Mae gan y Cyngor fecanweithiau sy'n ei helpu i asesu pa un a yw meysydd gwasanaeth yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n effeithiol ac mae'n rhoi gwersi ar waith i gryfhau ei drefniadau

9 Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

- mae gan y Cyngor ystod o drefniadau sy'n ei alluogi i'w sicrhau ei hun bod gwasanaethau'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n effeithiol:
  - yr her a grybwyllwyd uchod sy'n cael ei darparu gan bartneriaid perfformiad corfforaethol mewn perthynas â chynllunio gwasanaethau a hunanasesiadau Cyfarwyddiaethau.
  - mae hunanasesiadau cyfarwyddiaethau hefyd yn cael eu herio trwy broses adolygu gan gymheiriaid sy'n cynnwys Cyfarwyddwr arall, y Prif Weithredwr, aelodau Cabinet a chadeiryddion craffu. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r tro cyntaf y cynhelir y broses hunanasesu gan Gyfarwyddiaethau i oleuo cynlluniau gwasanaethau yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys adnabod meysydd ar gyfer gwella sy'n ymwneud â chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
  - cyfarfodydd byrddau prosiect – yng nghyfarfod y Bwrdd Prosiect Sero yr arsylwom ni arno roeddem yn gallu gweld her a thrafodaeth am gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
  - cyfarfodydd yr Uwch Dîm Arwain ehangach bob chwe wythnos sy'n cynnwys Penaethiaid Gwasanaeth. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi'u bwriadu i ddatblygu diwylliant o rannu adroddiadau a materion i helpu i hwyluso trafodaeth a her ar draws Cyfarwyddiaethau.
  - roedd hi'n amlwg o'n gwaith bod arweinwyr y Cyngor yn tanlinellu angen i ddysgu o'n pryderon ni ynghylch y contract hamdden. Mae'r Cyngor wedi rhannu gwersi o adnewyddu'r contract hamdden ar draws y sefydliad gyda swyddogion ac aelodau.
  - roedd y Prif Weithredwr yn glir mai cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yw'r ffordd y mae disgwyl i staff weithio. Mae'r mecanweithiau atebolrwydd i hwyluso hyn yn cynnwys cyfarfodydd un-i-un a chyfarfodydd Timau Rheoli Adrannol.

  - yn ystod ein gwaith maes, fe arsylwom ni ar drafodaethau cadarnhaol am strategaeth gaffael ddrafft y Cyngor a chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Er enghraifft, roedd y Cyngor yn ystyried effaith ehangach y broses gaffael ar ei ôl troed carbon a'r economi gylchol.

- mae'r Cyngor yn bwriadu adnewyddu ei ymagwedd at ei agenda drawsnewid. Mae hyn yn rhoi cyfle iddo sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n llywio'i ymagwedd, ac i'w sicrhau ei hun ei bod yn cael ei rhoi ar waith fel a fwriadwyd.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.